

Grŵp United Welsh Strategaeth 2023-27



unitedwelsh.com

celtic
horizons

celtic
offsite

harmoni
homes




Yma yn Grŵp United Welsh, rydym yn **adeiladu** cartrefi, yn **creu** cymunedau, ac yn **trawsnewid** bywydau.



Rydym yn darparu bron **6,500 o gartrefi fforddiadwy i bobl ledled De Cymru** gael mwynhau lle cynnes a diogel i fyw, gyda chymorth gennym ni.

Rydym yn gweithio'n galed i wneud gwahaniaeth ac yn camu i'r adwy pan fydd ein hangen ar ein cymunedau. Dim ond y dechrau yw darparu cartrefi. Rydym yn helpu pobl i fyw yn hapus ac yn annibynnol. Rydym yn mynd i'r afael â thlodi, yn buddsoddi mewn cymunedau mwy gwyrdd, ac yn herio anghydraddoldeb ar bob cam.

Mae Grŵp United Welsh yn sefydliad nid-er-elw ac yn cyflogi dros 400 o bobl. Mae'r Grŵp yn cynnwys ein gwasanaeth atgyweirio a chynnal a chadw Celtic Horizons; gwneuthurwr cartrefi ffrâm bren Celtic Offsite a Harmoni Homes Ltd, sy'n adeiladu cartrefi fforddiadwy a chartrefi i'w gwerthu.



HELP A CHYNGOR

IECHYD A LLESIANT

GWASANAETHAU CYMUNEDOL

Ein gwerthoedd

Rydym yn gweithio gyda'n gilydd mewn ffordd sy'n hyrwyddo ymddiriedaeth a diffuantrwydd, ac yn hyderus i gymryd risgiau pwylllog mewn diwylliant sy'n cofleidio syniadau newydd a chydweithio.

Dewiswyd ein gwerthoedd gan ein staff ledled ein sefydliad. Maent yn ein tynnu ynghyd a'n hysbrydoli, gan arwain ein strategaethau yn ogystal â'r penderfyniadau a wnawn o ddydd i ddydd.

rhagweithiol
uchelgeisiol
wedi grymuso
gonest
ysbrydoli
meddwl
magwrus
gofalgar
ymrwymiad
gwneud gwahaniaeth
diamod
teyrngarwch
uniondeb
cynhwysol
cadarnhaol
calonogol
amrywiaeth
angerddol
magwrus
ymddiriedaeth
hyblyg
gonestrwydd
brwdfrydedd
blaengar
organig
cynhwysiant
cymorth
undod
cyfannol
diffuant
cefnogol
creadigol
tosturiol
modern
partneriaeth
gyda ffocws
cymuned
parch
arloesol
pobl
rhanu



Ein hegwyddorion arweiniol

Mae'r egwyddorion arweiniol hyn yn llywodraethu'r ffordd rydym yn gweithio, er mwyn gwneud ein gorau dros ein cwsmeriaid a'n cymunedau.



Gwrando ac ymgysylltu

Rydym yn gwerthfawrogi ein cwsmeriaid a'n staff, ac yn gwrandao ar eu profiadau er mwyn addasu a gwneud penderfyniadau gwell. Rydym yn sicrhau bod y gwasanaethau rydym yn eu cynllunio a'u darparu o fudd i'w hanghenion newidiol.



Partneriaeth

Rydym yn gweithio'n arloesol gyda Llywodraeth Cymru, cynghorau lleol, byrddau iechyd a sefydliadau cymunedol eraill i wneud y gorau o adnoddau cyfyngedig, gan rannu ein profiad er budd pawb.



Cynhwysiant

Rydym yn rhoi gwerth ar amrywiaeth yr holl bobl rydym yn gweithio gyda nhw a'r cymunedau lle rydym yn gweithio. Rydym yn cydnabod bod pawb yn wahanol ac yn trin y gwahaniaethau hyn â pharch.



Fforddiadwyedd

Mae rhenti a thaliadau gwasanaeth yn cael eu gosod ar lefelau fforddiadwy. Rydym yn canolbwyntio ar ddarparu cartrefi a gwasanaethau sy'n cynrychioli gwerth am arian i'n cwsmeriaid.



Llywodraethu cryf, gwydnwch ariannol a rheoli risg

Cawn ein llywodraethu'n dda er mwyn cynnal ein cryfder ariannol a'n gwytnwch. Rydym yn rheoli risgiau ac yn lleihau ein hamlygiad i golled, wrth wneud y mwyaf o fuddion ein gweithrediadau i weithio'n effeithlon ac yn effeithiol.



Y heriau a wynebwn

Dros y blynyddoedd nesaf, mae'n debygol y byddwn yn gweithio yng nghysgod caledi parhaus i lawer o'n cwsmeriaid wrth i gostau byw barhau i godi neu barhau yn uchel.

Mae prinder tai fforddiadwy yng Nghymru o hyd, ac mae'r costau yr awn iddynt wrth adeiladu cartrefi newydd a chynnal a gwella cartrefi presennol wedi cynyddu'n sylweddol.

Mae digartrefedd yn gwaethgu ymhellach oherwydd tlodi ac anghydraddoldeb cynyddol, felly mae'n bwysig ein bod yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a sectorau eraill i

gefnogi pobl a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

Mae costau byw cynyddol hefyd yn effeithio ar ein staff, ac mae eu lles yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

Mae ein diwylliant o weithio hyblyg yn annog staff i wneud dewisiadau ynghylch sut maent yn gweithio fel y gallant gydbwysu gofynion cystadleuol gartref ac yn y gwaith.

Er mwyn datblygu'r strategaeth hon, gwnaethom ofyn i'n cwsmeriaid am eu blaenoriaethau wrth i gostau byw gynyddu. Gwnaethom hefyd siarad â staff am sut fyddai United Welsh llwyddiannus yn edrych ymhlen pum mlynedd, yn ogystal â rhanddeiliaid am sut mae ein cynlluniau yn cyd-fynd â'u blaenoriaethau a'u heriau.

Er mwyn cyflawni ein cenhadaeth o adeiladu cartrefi, creu cymunedau a thrawsnewid bywydau, bydd ein strategaeth yn canolbwyntio ar y canlynol:



Cartrefi Gwych



Gwasanaethau Llwyddiannus



Pobl Hapus ac Iach



Cartrefi Gwych

Byddwn yn darparu **1,300 o gartrefi carbon isel erbyn 2027** sy'n lleoedd cynnes, diogel a hapus i fyw ynddynt.

Byddwn yn **buddsoddi yn ein cartrefi presennol** i'w gwneud yn fwy modern ac effeithlon o ran ynni.



Lle rydyn ni nawr



Dros y pum mlynedd diwethaf rydym wedi adeiladu dros 1,000 o gartrefi i'w rhentu'n fforddiadwy ac ar gyfer perchnogion newydd.



Rydym wedi canolbwyntio ar feithrin partneriaethau cryfach ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd a sefydliadau digartrefedd i ddarparu cartrefi arbenigol sydd wirioneddol yn newid bywydau preswylwyr y mae angen cymorth ychwanegol arnynt.



Gwnaethom greu Celtic Offsite – menter gymdeithasol gyda chyfleusterau gweithgynhyrchu i adeiladu strwythurau ffrâm bren ar gyfer 250 o gartrefi y flwyddyn.



Gwnaethom lansio ein strategaeth Tuag at Garbon Sero Net, ac rydym wedi bwrw ymlaen â gwaith ôl-osod yn ein cartrefi presennol i wella eu heffeithlonrwydd o ran ynni a lleihau ein hól troed carbon.

Ein dull gweithredu

Mae aelwydydd yn gyfrifol am 26% o allyriadau carbon y DU, ac fel un o brif ddarparwyr cartrefi Cymru, rydym wedi ymrwmo i chwarae ein rhan i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Ar hyn o bryd, mae gan 43% o'n cartrefi sgôr ynni Band B neu uwch. Byddwn yn parhau i gyflawni ein strategaeth Tuag at Garbon Sero Net, gan fuddsoddi mewn inswleiddio gwell yn ein cartrefi presennol a gosod boeleri nwy newydd yn y blynyddoedd i ddod. Bydd ein cartrefi newydd yn defnyddio ffynonellau ynni gwyrdd a thechnolegau di-garbon, ac yn cynnig mynediad at bwyntiau gwefru cerbydau trydan.

Mae'n bwysig bod ein cartrefi'n aros mewn cyflwr da, ac fel landlord cymunedol, rhaid i'n cartrefi gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r safonau hyn yn esblygu o hyd i ganolbwyntio mwy ar gyflawni Carbon Sero Net a byddwn yn rhoi'r mesurau newydd ar waith wrth i ni fwrw ymlaen â'n cynlluniau datblygu a datgarboneiddio.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw adeiladu cartrefi yn ddigon. Mae angen cartrefi a chymorth sydd wedi'u cynllunio o amgylch eu hanghenion ar rai pobl, gan leddfu'r pwysau ar deuluoedd, iechyd a gofal cymdeithasol a'r system cyfiawnder troseddol.

Byddwn yn meithrin ein partneriaethau cryf ymhellach er mwyn cynnig atebion tai mwy arloesol ar gyfer yr adegau hynny pan

nad y dull traddodiadol yw'r dull cywir ar gyfer pobl neu wasanaethau cyhoeddus, gan archwilio modelau ariannu i gyrraedd ein nodau.

Mae hyn yn golygu ein bod yn parhau i weithio'n arloesol gydag awdurdodau lleol, byrddau iechyd a phartneriaid eraill i newid bywydau pobl sy'n profi digartrefedd, a phobl y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i fyw'n annibynnol.



Ein hamcanion

1. Darparu 1,300 o gartrefi newydd effeithlon o ran ynni i'w rhentu'n fforddiadwy, ar gyfer pobl sy'n awyddus i ddilyn llwybr perchentyaeth fforddiadwy, ac ar gyfer pobl y mae angen tai arbenigol arnynt.

2. Ehangu Celtic Offsite er mwyn helpu United Welsh a'n partneriaid i gyflawni ein huchelgeisiau datblygu ar gyfer darparu cartrefi carbon isel.

3. Tyfu Tai Ffres, gwasanaeth tai ar gyfer pobl ifanc rydym yn ei ddatblygu gyda'r elusen digartrefedd Llamau. Bydd Tai Ffres yn darparu cartrefi gwirioneddol fforddiadwy i bobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau gyda'r cynllun digartrefedd presennol a darpariaeth tai â chymorth.

4. Codi safon ein cartrefi presennol yn unol â'n strategaeth Tuag at Garbon Sero Net, gan archwilio cyllid ac arbenigedd technegol er mwyn parhau â'n rhaglen ôl-osod er mwyn optimeiddio.

Sut y byddwn yn mesur cynnydd



Nifer y cartrefi a ddarparwyd yn gyffredinol



Darparu o leiaf 100 o gartrefi newydd i'w rhentu gyda Tai Ffres



Elw a grëwyd gan Celtic Offsite



Nifer y cartrefi presennol sydd wedi'u huwchraddio i gael sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni uwch



Boddhad cwsmeriaid gyda'n cartrefi a'n gwaith ôl-osod



Gwasanaethau Llwyddiannus

Byddwn yn **gwella profiadau ein cwsmeriaid** drwy greu ac adfywio gwasanaethau sy'n gwrandu ar eu safbwyntiau ac yn cyd-fynd â'u hanghenion.

Byddwn yn mabwysiadu **egwyddorion dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr** ledled y sefydliad er mwyn ddefnyddio ein hadnoddau'n effeithlon a darparu gwell gwerth am arian.



Lle rydyn ni nawr

 Yn ogystal â darparu cartrefi, rydym hefyd yn darparu gwasanaethau i gefnogi pobl gyda chyllid, swyddi a hyfforddiant, ynysu cymdeithasol a lles, adfywio cymunedol, a phrydlesu eiddo.

 Roedd 78% o'r trigolion a arolygwyd yn 2021/22 yn fodlon ar y gwasanaethau y mae United Welsh yn eu darparu, a 73% yn fodlon ar y ffordd y mae United Welsh yn delio â gwaith atgyweirio a chynnal a chadw.

 Rydym wedi gwneud newidiadau i'n prosesau er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth tai newydd yn unol â Deddf Rhentu Cartrefi Cymru. Bydd ein holl gwsmeriaid yn cael cytundebau newydd ar gyfer rhentu cartref gyda ni.

 Yn 2022, cymeradwyodd ein Bwrdd strategaeth cyfranogiad cwsmeriaid newydd er mwyn adnewyddu'r ffordd rydym yn gweithio gyda chwsmeriaid sy'n byw yn ein cartrefi ac yn defnyddio ein gwasanaethau.

 Rydym wedi buddsoddi yn ein tîm Trawsnewid Busnes a Thechnoleg i wella sut rydym yn defnyddio technoleg a data.

Ein dull gweithredu

Byddwn yn rhoi ein strategaeth cyfranogiad cwsmeriaid newydd ar waith. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu ein bod yn cydnabod mai ein cwsmeriaid yw'r arbenigwyr ar eu bywydau a nhw yw'r bobl sydd yn y sefyllfa orau i'n cynghori ar sut i ddarparu gwasanaethau rhagorol sydd o bwys iddynt. Byddwn yn sicrhau bod mecanweithiau ar waith fel y gall cwsmeriaid lunio, newid a dylanwadu ar y gwasanaethau a ddarparwn. Byddwn yn dangos sut rydym wedi defnyddio eu hadborth i lywio penderfyniadau.

Mae datblygu cymunedol yn dechrau gyda chydabod doniau a chryfderau'r cwsmeriaid sy'n byw yn ein cymunedau a chael gwared ar unrhyw rwystrau i sicrhau y gallant wneud y gwahaniaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n bwysig iddyn nhw a'r ardaloedd lle maent yn

byw. Rydym hefyd am i'n cwsmeriaid gael gwell eglurder ynghylch pa wasanaethau y gallwn eu darparu, wrth sicrhau eu bod yn gallu rhoi adborth mewn ffyrdd amserol a chyfleus.

Byddwn yn gwella sut rydym yn defnyddio technoleg a data i geisio'r adborth hwn a gofalu am ein cartrefi. Bydd hyn yn cynnwys cynnal



Bydd staff ym mhob rhan o'r busnes yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am realiti o ddydd i ddydd ein cwsmeriaid.

ymweliadau Cartrefi Iach blynyddol sydd o fudd i'r ddwy ochr – gan ddiwallu anghenion cwsmeriaid, gwella cyfathrebu a lleihau cwynion.

Ein hamcanion

1. Cynyddu boddhad cyffredinol cwsmeriaid â'r gwasanaethau a ddarparwn, gan feincodi ein hunain yn erbyn darparwyr tai eraill a sicrhau ein bod yn perfformio o fewn ail chwarter arolwg boddhad tenantiaid landlordiaid cymdeithasol blynyddol Llywodraeth Cymru o leiaf.
2. Cynyddu boddhad cwsmeriaid â'r ffordd rydym yn delio â gwaith atgyweirio a chynnal a chadw.
3. Creu safonau ansawdd gwasanaeth cwsmeriaid ar gyfer meysydd busnes allweddol gan ddefnyddio dull dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, gan wella'r ffordd rydym yn gwrandu ac yn gweithredu ar safbwyntiau cwsmeriaid pan fyddwn yn cynllunio ac yn darparu ein gwasanaethau.
4. Datblygu ein harlwy digidol fel bod ein staff a'n cwsmeriaid yn gallu darparu a defnyddio gwasanaethau ar-lein yn fwy effeithlon.



Sut y byddwn yn mesur cynnydd



Boddhad cwsmeriaid â gwasanaethau United Welsh a'r atgyweiriadau a ddarperir gan Celtic Horizons



Cyflwyno prosiectau Technoleg a Thrawsnewid



Boddhad cwsmeriaid a staff o ran y ffordd rydym yn gwrandu ar eu safbwyntiau ac yn gweithredu arnynt



Monitro cwynion cwsmeriaid am ein gwasanaethau



Darparu safonau ansawdd Gwasanaeth Cwsmeriaid



Pobl Hapus ac Iach

Byddwn yn rhoi cymorth
i'n cwsmeriaid a'n staff i
fyw bywydau mwy bodlon

Byddwn yn
canolbwyntio ar
ddefnyddio ein
hadnoddau i **wella
ansawdd eu bywyd
a'u lles**, wrth wneud
y gorau o'r cyfleoedd
i ddod yn sefydliad
mwy amrywiol a
hygyrch.

HELP A CHYNGOR

IECHYD A
LLESIAINT

GWASANAETHAU
CYMUNEDOL

Lle rydyn ni nawr



Daethom yn gyflogwr
Cyflog Byw
Gwirioneddol yn 2021
ac rydym wedi cadw statws
Aur Buddsoddwyr mewn
Pobl (BmP) am y chwe
blynedd diwethaf.



Er mwyn cefnogi
cwsmeriaid gyda
chostau byw
cynyddol, lansiwyd cronfa
caledi cwsmeriaid a
chymhorthdal ar gyfer rhai
taliadau gwasanaeth. Er
mwyn cefnogi staff, lansiwyd
cronfa caledi staff a
chynigiwyd dyfarndal cyflog
anghyfunol ychwanegol yn
ystod y flwyddyn.



Rydym yn monitro ac
yn rheoli risgiau i
iechyd a diogelwch
o'r lefelau isaf hyd at lefel y
Bwrdd, gan gadw cwsmeriaid
a staff yn ddiogel tra byddant
yn byw yn ein cartrefi ac yn
gweithio gyda ni.



Rydym yn darparu
nifer o wasanaethau
lles ac iechyd meddwl
cymunedol i bobl sy'n byw yn
ein cartrefi ac yn y gymuned
ehangach. Mae ein gwaith
gyda phobl hŷn wedi bod yn
llwyddiannus iawn, yn ogystal
â'r gwasanaethau a
ddarparwn gyda Bwrdd
Iechyd Prifysgol Aneurin
Bevan i gefnogi pobl ag
anghenion iechyd meddwl
cymhleth.



Rydym wedi
defnyddio ein
harbenigedd mewn
iechyd meddwl a lles i
fuddsoddi mewn cymorth
mewnol ychwanegol ar gyfer
ein staff.



Rydym wedi
ailgynllunio ein ffordd
o recriwtio i gynnig
profiad mwy cynhwysol i staff
ac ymgeiswyr sy'n dymuno
gweithio gyda ni.

Ein dull gweithredu

Mae cynnal fforddiadwyedd
ein gwasanaethau yn rhan
annatod o'n gwaith fel
landlord cymunedol. Yn y
blynyddoedd nesaf, byddwn
yn parhau i flaenoriaethu
sut y gallwn ddarparu rhent
a thaliadau gwasanaeth i
gwsmeriaid sy'n fforddiadwy,
gan ofyn am adborth
ganddynt a gweithio mewn
ffyrdd arloesol gyda'r
adnoddau sydd gennym.

Byddwn hefyd yn ehangu'r
gwasanaethau lles ac
iechyd meddwl rydym yn
eu darparu, gan wneud
yn siŵr bod canlyniadau'r
gwasanaethau hyn yn parhau
i fod yn fesuradwy ac yn
canolbwyntio ar anghenion
cwsmeriaid.

Er mwyn annog ymdeimlad
gwell o les ymhlith ein staff,
byddwn yn eu cefnogi i
ateb heriau bywyd gwaith
a chartref modern. Mae hyn
yn golygu canolbwyntio

ar eu lles ariannol wrth i'r
argyfwng costau byw barhau,
a darparu cyfleoedd dysgu,
datblygu ac ymgysylltu
parhaus fel bod ein pobl yn
cael eu hysgogi i gyflawni, lle
bynnag y maent yn gweithio.

Mae ein diwylliant
yn canolbwyntio ar
ymddiriedaeth ac uniondeb,
ac rydym yn cael sgysiau
agored â staff yn rheolaidd
er mwyn trafod syniadau,
ystyried eu safbwyntiau a
chlywed eu hadborth. Bydd y
Grŵp Partneriaeth yn parhau
i hyrwyddo llais cyfunol ein
staff, gan sicrhau bod pawb
yn cael y cyfle i gyfrannu at
y penderfyniadau strategol
sy'n effeithio ar ein pobl.

Mae amrywiaeth ymhlith ein
staff yn gwella, a byddwn yn
rhagweithiol wrth chwilio am
bobl amrywiol a thalentog
i ymuno â'n sefydliad fel
ein bod yn adlewyrchu'r
cymunedau rydym yn
gweithio gyda nhw.

Bydd iechyd a diogelwch yn hollbwysig
ym mhob rhan o'n gweithrediadau,
yn ogystal â diogelwch a diogeledd
y data sydd gennym.

Mae angen i gydraddoldeb,
amrywiaeth a chynhwysiant
fod wedi'u gwreiddio yn ein
polisiau a'n harferion, fel
bod ein prosesau busnes
a'n gwasanaethau yn dileu
rhwystrau i hygyrchedd.
Bydd hyrwyddo cydraddoldeb,
amrywiaeth a chynhwysiant
yn rhan annatod o'n dull
dylunio sy'n canolbwyntio ar
y defnyddiwr wrth gynllunio
a darparu gwasanaethau.

Byddwn hefyd yn gwella'r
ffordd rydym yn casglu
ac yn defnyddio data am
ddemograffeg ein cwsmeriaid
i lywio'r ffordd rydym yn
targedu ein hadnoddau
yn well ac yn gwneud
penderfyniadau.

Ein hamcanion

1.
Cynnal rhent a thaliadau
gwasanaeth ar lefelau
fforddiadwy i gwsmeriaid.

2.
Darparu mwy o
wasanaethau lles ac iechyd
meddwl ar gyfer grwpiau
gwahanol o gwsmeriaid,
gan hyrwyddo ein
gwasanaethau a'n cynnydd.

3.
Denu pobl amrywiol a
thalentog i weithio i United
Welsh a'u cadw, gan nodi
bylchau mewn sgiliau a
darparu cyfleoedd ar gyfer
hyfforddiant a chyflogaeth.

Sut y byddwn yn mesur cynnydd



**Monitro lefelau
ôl-ddyledion**



**Bodddad
cwsmeriaid
â diogelwch
eu cartrefi a'u
cymunedau**



**Monitro
canlyniadau
gwasanaethau
newydd, gan
gynnwys
adborth gan
gwsmeriaid**



**Adborth gan
staff am ein
mentrau lles
mewnol**



**Monitro cwynion
cwsmeriaid am
hygyrchedd
ac iechyd a
diogelwch**



**Monitro
amrywiaeth
ymhlith ein staff
a'n cwsmeriaid**



Cysylltu â ni

united
welsh



www.facebook.com/UnitedWelsh



www.twitter.com/UnitedWelsh



www.linkedin.com/company/united-welsh



www.tiktok.com/@unitedwelsh



www.youtube.com/UnitedWelshTV

0330 159 6080
www.unitedwelsh.com



celtic
horizons

celtic
offsite

harmoni
homes